

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**  
Chief Officer (Governance)  
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:  
Ceri Shotton 01352 702305  
ceri.shotton@flintshire.gov.uk

At: Cyng Ian Dunbar (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Helen Brown, Geoff Collett, David Cox, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Veronica Gay, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd a Kevin Rush

2 Rhagfyr 2021

Annwyl Gyngorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**  
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU**  
**DYDD MERCHER, 8 RHAGFYR, 2021 10.00 AM**

Yn gywir

Robert Robins  
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

## R H A G L E N

### 1 YMDDIHEURIADAU

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

### 3 COFNODION (Tudalennau 5 - 8)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 10 Tachwedd 2021.

### 4 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED (Tudalennau 9 - 18)

Adroddiad Hwylusydd Trosolwg a Chraffu

**Pwrpas:** Ystyried y flaenraglen waith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned, Tai ac Asedau a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor o'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

### 5 DIWEDDARIAD AM DDIWYGIO'R GYFUNDREFN LES (Tudalennau 19 - 34)

Adroddiad Prif Weithredwr - Aelod Cabinet dros Dai

**Pwrpas:** I roi diweddariad ar effaith Diwygio'r Gyfundrefn Les ar breswylwyr Sir y Fflint

### 6 INCWM RHENT TAI (Tudalennau 35 - 40)

Adroddiad Prif Weithredwr - Aelod Cabinet dros Dai

**Pwrpas:** I ddarparu diweddariad gweithredol ar gasglu rhent a lefelau ôl-ddyledion presennol.

### 7 CYNLLUN Y CYNGOR 2021-22 MONITRO CANOL BLWYDDYN (Tudalennau 41 - 94)

Adroddiad Prif Weithredwr - Aelod Cabinet dros Dai, Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau

**Pwrpas:** Adolygu'r lefelau cynnydd wrth gyflawni gweithgareddau a lefelau perfformiad fel y nodwyd yng Nghynllun y Cyngor.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***

## **Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>